OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2020 Rhif 1083 (Cy. 245)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A465 (y Rhigos, Rhondda Cynon Taf i Lyn-nedd, Castell-nedd Port Talbot) (Gwaharddiadau a Chyfyngiadau Traffig Dros Dro) 2020

Gwnaed	*2 Hydref 2020*
Yn dod i rym	*6 Hydref 2020*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer cefnffordd yr A465, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd a/neu gyfyngu arno oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi, Cychwyn a Dehongli

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A465 (y Rhigos, Rhondda Cynon Taf i Lyn-nedd, Castell-nedd Port Talbot) (Gwaharddiadau a Chyfyngiadau Traffig Dros Dro) 2020 a daw i rym ar 6 Hydref 2020.

2. Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw:

(a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**2**); a

(**1**) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn bellach yn arferadwy gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(**2**) Diwygiwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p. 21), paragraff 42 o Atodlen 4 i Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005 (p. 15), paragraff 29(2) o Atodlen 8 i Ddeddf Troseddu a'r Llysoedd 2013 (p. 22) ac adran 50(4) a (5) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p. 20).

(b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r lluoedd arbennig—

(i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu

(ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod hwnnw sy'n dechrau am 20:00 o'r gloch ar 6 Hydref 2020 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y gefnffordd" ("*the trunk road*") yw cefnffordd yr A465 Castell-nedd i'r Fenni;

ystyr "lluoedd arbennig" ("*special forces*") yw'r unedau hynny o'r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

Gwaharddiadau a Chyfyngiadau

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd ar naill ai cerbytffordd tua'r gorllewin neu gerbytffordd tua'r dwyrain y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn.

4.—(1) Tra bo traffig yn cael ei wahardd rhag symud ar y gerbytffordd tua'r gorllewin gan erthygl 3 ond, yn unol ag erthygl 10, nad yw'n cael ei wahardd rhag symud ar y gerbytffordd tua'r dwyrain, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd yn lôn allanol cerbytffordd tua'r dwyrain y darn o'r gefnffordd i unrhyw gyfeiriad ac eithrio tua'r gorllewin.

(2) Tra bo traffig yn cael ei wahardd rhag symud ar y gerbytffordd tua'r dwyrain gan erthygl 3 ond, yn unol ag erthygl 10, nad yw'n cael ei wahardd rhag symud ar y gerbytffordd tua'r gorllewin, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd yn lôn allanol cerbytffordd tua'r gorllewin y darn o'r gefnffordd i unrhyw gyfeiriad ac eithrio tua'r dwyrain.

5. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn.

6. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd sy'n 2.9 metr o led neu'n lletach ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn.

7. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio unrhyw feic pedal ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn.

8. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ddefnyddio cerbyd na chaniatáu i gerbyd gael ei ddefnyddio yn y fath fodd fel ei fod yn goddiweddyd unrhyw gerbyd arall ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn yn ystod yr adegau hynny y mae'r gwaharddiadau y cyfeirir atynt yn erthyglau 3 a 4 yn weithredol.

9. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 30, 40 neu 50 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 3 i'r Gorchymyn hwn.

Cymhwyso

10.—(1) Nid yw'r gwaharddiadau a'r cyfyngiadau yn erthyglau 3, 4, 5, 6, 7, 8 a 9 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y mae arwyddion traffig yn eu dangos.

(2) Nid yw unrhyw derfyn cyflymder a osodir gan y Gorchymyn hwn yn gymwys i gerbyd esempt.

Atal Dros Dro

11. Mae unrhyw ddarpariaethau statudol sy'n cyfyngu ar gyflymder cerbydau ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 3 i'r Gorchymyn hwn wedi eu hatal dros dro yn ystod yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiadau a bennir yn erthygl 9 yn weithredol.

Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn

12. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 2 Hydref 2020

Nicci Hunter
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

ATODLEN 1
Gwrthlif a Dim Goddiweddyd

Y darn o gerbytffordd tua'r dwyrain y gefnffordd sy'n ymestyn o'r pwynt croesi tua 1.6 cilometr i'r dwyrain o Gyfnewidfa Glyn-nedd yr A465 am bellter o tua 1.1 cilometr.

Y darn o gerbytffordd tua'r gorllewin y gefnffordd sy'n ymestyn o'r pwynt croesi tua 2.18 cilometr i'r

gorllewin o danffordd Halt Road y Rhigos yr A465 am bellter o tua 1.1 cilometr.

Y darn o'r ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyfnewidfa Glyn-nedd.

ATODLEN 2
Gwahardd Cerbydau a Beicwyr Dros Dro

Y darn o gerbytffordd tua'r dwyrain y gefnffordd sy'n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael tua'r dwyrain wrth Gyfnewidfa Glyn-nedd hyd at ei chyffordd â phrif gerbytffordd gylchredol Cylchfan y Rhigos.

Y darn o gerbytffordd tua'r gorllewin y gefnffordd sy'n ymestyn o'i chyffordd â phrif gerbytffordd gylchredol Cylchfan y Rhigos hyd at drwyniad y ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyfnewidfa Glyn-nedd.

Y darn o'r ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyfnewidfa Glyn-nedd.

Y 3 cilfan sy'n gyfagos i gerbytffordd tua'r dwyrain y gefnffordd o bwynt tua 805 o fetrau i'r dwyrain o Gyfnewidfa Glyn-nedd yr A465 am bellter o tua 1.6 cilometr.

Y 3 cilfan sy'n gyfagos i gerbytffordd tua'r gorllewin y gefnffordd o bwynt tua 2.3 cilometr i'r gorllewin o danffordd Halt Road y Rhigos yr A465 am bellter o tua 1.6 cilometr.

ATODLEN 3
Terfynau Cyflymder 30 mya, 40 mya neu 50 mya Dros Dro

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt tua 678 o fetrau i'r gorllewin o Gyfnewidfa Glyn-nedd yr A465 hyd at bwynt tua 165 o fetrau i'r gorllewin o danffordd Halt Road y Rhigos yr A465.